Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cross Hands

**Heol Caerfyrddin**
**Cross Hands**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 6SU**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cross Hands

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Cross Hands C.P. School |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 143 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 98 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw’n berthnasol) | 26 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 14.3% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 10.2% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg yn y cartref | 28.6% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2005 |
| Dyddiad yr arolygiadEstyn blaenorol (os yw’n berthnasol) | 14/10/2014 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw’r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i’r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Cross Hands yn gymuned hapus a gofalgar lle mae gofalu am les disgyblion yn sylfaen gadarn i'w holl waith. Mae'r ysgol wedi ffedereiddio ag Ysgol Gynradd Drefach, ac mae'r ddwy ysgol yn cydweithio'n agos a llwyddiannus gyda'i gilydd. Mae gan y pennaeth, arweinwyr ac aelodau'r corff llywodraethol drosolwg effeithiol o gynnydd ar draws y ddwy ysgol, ac maent yn dyrannu adnoddau'n effeithiol. Mae staff y ddwy ysgol yn cael eu cyflogi gan y ffederasiwn ac, o ganlyniad, mae hyblygrwydd buddiol sy'n hwyluso cydweithio agos. Er enghraifft, mae'r athrawon yn cydweithio ar draws y ffederasiwn wrth arwain agweddau o'r cwricwlwm i Gymru. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn drylwyr ac yn caniatáu i arweinwyr dargedu blaenoriaethau ar draws y ffederasiwn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau sylfaenol. Maent yn gwrando'n aeddfed ar ei gilydd ac yn sgwrsio'n gynyddol hyderus gan ddefnyddio tafodiaith leol yn naturiol yn ystod eu gweithgareddau. Er hyn, mae tueddiad iddynt ddefnyddio'r Saesneg gyda'i ffrindiau mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Mae medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n dda ac mae'r disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Ar draws yr ysgol, mae perthynas weithio agos a chefnogol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad cyfoethog o weithgareddau, sy'n magu annibyniaeth gynyddol ymysg y disgyblion. Mae'r athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn annog meddwl a rhoi cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu syniadau.

Mae'r staff yn defnyddio technoleg yn fedrus er mwyn hwyluso cydweithio ag Ysgol Drefach. Mae'r ysgol yn rhan ganolog o'i chymuned, ac mae'r disgyblion yn dysgu llawer am eu hardal trwy'r berthynas sydd ganddynt â'r henoed yn lleol. Mae diwylliant cryf o ddiogelu plant yn yr ysgol, ac mae ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer parcio ceir staff ar y safle, ac ar gyfer y llwybr i ddisgyblion a rhieni gael mynediad at fuarth yr ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd, yn briodol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg y disgyblion

A2 Sicrhau lefel briodol o her ar gyfer pob disgybl

A3 Ymateb i'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol tua hanner y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, oni bai am yn y Gymraeg lle mae'r iaith yn newydd i'r rhan fwyaf ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Gyda chefnogaeth gyson, mae medrau llafar disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn dechrau sgwrsio'n hyderus yn y Gymraeg am eu gwaith a'u profiadau gan ddefnyddio tafodiaith leol yn naturiol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau llafar yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er enghraifft, maent yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau a dadleuon wythnosol 'Gwener Geiriol' neu 'Fireworks Friday'. Er hyn, mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn tueddu i droi at y Saesneg wrth gyfathrebu â'i gilydd.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddarganfod gwybodaeth am lan y môr. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n  gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, maent yn dadansoddi pecynnau bwydydd i gyfrifo gwerth caloriffig er mwyn creu prydau cytbwys.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau, yn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth greu poster i berswadio pobl i ymweld ag Ysgol Cross Hands. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi. Maent yn addasu arddull a strwythur at wahanol gyd-destunau yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu sgript am ymosodiad Arawn fel rhan o'u gwaith ar y Mabinogi, neu wrth ysgrifennu llythyr yn croesawu disgyblion newydd eu dosbarth.

Ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn cymhwyso eu medrau cyfrifo yn effeithiol, er enghraifft wrth ddatrys problemau adio a thynnu hyd at ddeg i ddarganfod sawl cyw sydd ar goll. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael ddeallus ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin arian yn gywir. Ar frig yr ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o gysyniadau mathemategol. Mae hyn yn eu galluogi i ddehongli data mewn ffyrdd gwahanol ac i ddod o hyd i gasgliadau

pendant, er enghraifft wrth ddehongli graffiau lefelau'r môr a rhagfynegi effaith newid hinsawdd ar y byd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu graffiau syml yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddarganfod hoff flas ysgytlaeth y dosbarth yn dilyn cyfweliad rhithiol gyda ffermwr lleol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn cyfuno eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio rhaglen godio i greu animeiddiad syml. Mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu'n gadarn ar y sylfaen hon. Er enghraifft, maent yn defnyddio offer digidol yn hyderus wrth gyfansoddi sgôr gerddoriaeth gan amrywio'r curiad a'r rhythm.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau buddiol. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu medrau mudol mân yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio gefail i ddidoli siapiau o faint gwahanol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu cyd-symudiad ac ystwythder a thrwy sesiynau iechyd a ffitrwydd rheolaidd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Maent yn hyderus i drafod eu teimladau yn ddyddiol o fewn eu dosbarthiadau sy'n cyfrannu'n effeithiol at gynnal eu hyder a'u lles emosiynol. Mae bron pob disgybl yn gyfeillgar a chwrtais gan ddangos parch at eu cyfoedion a staff. Maent yn groesawgar ac yn barchus iawn gydag ymwelwyr ac yn hyderus wrth drafod eu gwaith a'r profiadau yn maent yn eu mwynhau yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod gweithgareddau ac o gwmpas yr ysgol. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n llawn brwdfrydedd ac yn arddangos diddordeb yn eu gwaith. Maent yn dyfalbarhau i gwblhau tasgau, er enghraifft wrth ddarganfod a chyfri'r darnau arian y maent yn eu darganfod yn y twba tywod. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddewis tasgau ac wrth weithio'n annibynnol. Maent yn canolbwyntio a gwrando'n dda, er enghraifft wrth fwynhau stori am anifeiliaid y fferm ar ddiwedd y dydd. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ar safbwyntiau eraill, er enghraifft wrth drafod effaith bwyta diet iach ar amgylchedd ein planed neu wrth drafod pa flas ysgytlaeth sydd orau ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol i'w dysgu trwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Er enghraifft, wrth feddwl am gwestiynau i'w gofyn i'r ffermwr ynglŷn â bywyd ar y fferm, a sawl litr o laeth y gall y fuwch ei gynhyrchu mewn diwrnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn defnyddio gardd yr ysgol yn fuddiol i dyfu llysiau a choginio prydau bwyd iachus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn y dosbarth, yn ystod amser egwyl a chinio ac mewn clwb chwaraeon ar ôl ysgol. Mae disgyblion yn deall bod lles emosiynol yn bwysig ac maent yn cymryd rhan weithredol mewn gwersi iechyd a lles sy'n hybu iechyd meddwl da. Mae bron pob disgybl yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Trwy raglen o weithgareddau diddorol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol. Yn ystod wythnos gwrthfwlio, mae disgyblion hŷn yn cyfrannu'n bwrpasol er mwyn herio stereoteipio. Mae disgyblion iau yn dathlu amrywiaeth trwy sesiynau 'Rydyn ni'n wahanol ond rydyn ni'n ffrindiau'. Yn ogystal â hyn, mae'r disgyblion yn rhan o gynllunio gweithgareddau i gefnogi elusennau. Er enghraifft, maent yn coginio a gwerthu cacennau i godi arian ar gyfer plant Wcrain.

Mae ychydig o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rôl arwain er mwyn gwerthu ffrwythau yn ystod amser egwyl. Yn ogystal â hyn, mae ychydig o'r disgyblion hŷn yn ymgymryd â rolau arwain trwy wirfoddoli fel llysgenhadon efydd. Maent wedi ymgymryd â'u rolau yn gydwybodol, gan ddatblygu eu medrau trwy arwain sesiynau corfforol yn eu dosbarthiadau.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r holl staff yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau perthnasoedd gwaith cryf gyda phob disgybl. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol ac yn gweithio'n galed i feithrin perthynas gynhwysol a gweithgar. O ganlyniad, mae'r awyrgylch dysgu cefnogol yn ysgogi brwdfrydedd disgyblion tuag at eu dysgu yn llwyddiannus.

Yn yr arfer orau, mae cyflwyniadau'r staff yn fywiog ac yn sbarduno disgyblion i ddysgu yn frwdfrydig. Yn yr achlysuron hyn, mae'r staff yn amrywio technegau addysgu yn effeithiol drwy sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn holi'r disgyblion yn fedrus a'u hannog i feddwl yn ddwys ac i ystyried eu hymatebion. Mae'r staff yn ymyrryd yn gelfydd ar adegau er mwyn symud y dysgu ymlaen gydag unigolion a grwpiau. Er bod gan y staff wybodaeth gadarn am allu ac anghenion disgyblion, nid yw'r gweithdrefnau olrhain cynnydd yn ddigon miniog i'w galluogi i ddarparu'r lefel briodol o her yn gyson i bob grŵp o ddisgyblion.

Mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn effeithiol. Maent yn atgoffa disgyblion am ddysgu blaenorol ac yn gwneud cysylltiadau defnyddiol â'u gwaith presennol. Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb bron bob disgybl gan baratoi gweithgareddau sy'n eu hysgogi i ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynllunio 'Caffi Cross' gan roi ystyriaeth i gyllideb caeth a chostau ar gyfer sicrhau eu bod yn gwneud elw. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau TGCh a rhifedd yn effeithiol wrth gydweithio'n dda mewn grwpiau i ddewis a dethol bwydydd iachus.

Mae athrawon yn defnyddio canmoliaeth ac adborth yn bwrpasol er mwyn dathlu llwyddiannau ac arwain y disgyblion at y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain, a pherfformiad disgyblion eraill, yn datblygu'n briodol. Mae staff yn atgyfnerthu a datblygu dealltwriaeth a defnydd disgyblion o'r iaith Gymraeg yn effeithiol yn ystod sesiynau. Er hyn, nid yw

disgwyliadau staff o ran defnydd y disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol yn gyson.

Ar draws y ffederasiwn, mae athrawon yn cyd-gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae safonau disgyblion a'r modd maent yn cymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n gadarn. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ffederasiwn.

Mae'r ysgol yn paratoi'n fwriadus ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn arbrofi â thasgau amrywiol sy'n cael eu cynllunio'n bwrpasol yn unol â'r chwe maes dysgu a phrofiad, a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu'n effeithiol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus a chreadigol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n dda â'i gilydd er mwyn creu cymuned ofalgar ac amgylchedd dysgu diogel. Mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n sicrhau bod iechyd a lles pob disgybl yn flaenoriaeth barhaus. Mae'r ysgol yn cynnig amryw gyfleoedd i ddisgyblion gadw'n heini mewn gwersi ac mewn clybiau ar ôl ysgol. Yn ogystal â hyn, mae darpariaeth effeithiol ar gyfer cynnal lles disgyblion. Mae'r staff yn cynnig amrediad effeithiol o weithgareddau pwrpasol sy'n cynnwys defnydd o'r Annwn, sef yr ardal goedwig a natur, a'r ardd llysiau. Yn ogystal, maent yn cynnal sesiynau gwerthfawr sy'n hyrwyddo myfyrdod meddyliol a chorfforol. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac mae disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach.

Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr er mwyn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd i fyfyrio ar faterion cyfoes a chrefyddau eraill mewn gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth. Trwy gynnal sesiwn ar herio stereoteipiau yn ystod wythnos gwrth-fwlio, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad. Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerthfawr gydag elusennau a'r gymuned ehangach.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddathlu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth a'u diwylliant. Maent yn dathlu diwrnod 'siwmae su' mae,' ac mae'r disgyblion yn coginio 'pice ar y mân,' er mwyn dathlu eu Cymreictod a dathlu dydd Gŵyl Dewi. Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn â'r gymuned leol. Enghraifft nodedig yw'r rhaglen o weithgareddau gyda Chlwb Pontio'r Henoed yn Cross Hands. Mae'r disgyblion yn elwa'n sylweddol o dreulio amser gydag aelodau hŷn y gymuned gan arwain amrywiol weithgareddau a datblygu perthnasoedd iach. Mae'r berthynas hon sydd wedi gwreiddio dros gyfnod yn elwa'r disgyblion ac yn pontio'r cenedlaethau. Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant cryf o barch a chydraddoldeb o fewn eu cymuned. Er enghraifft, wrth gyfrannu at lunio a chreu arwyddair i'r ysgol, datblygu logo newydd ar gyfer ffederasiwn Cross Hands a Drefach, a derbyn mainc newydd i'r buarth gan yr elusen 'Men's Sheds'.

Mae cyfyngiadau'r pandemig wedi amharu ar allu ychydig o'r 'Sgwodiau' a chynghorau'r ysgol i gyfarfod ers dechrau'r flwyddyn. Serch hyn, mae athrawon yn darparu ychydig o gyfleoedd priodol i ddisgyblion ddylanwadu ar rai agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae staff yr ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn ac yn cefnogi anghenion y disgyblion yn briodol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn cydweithio'n dda ag asiantaethau allanol er mwyn darparu sesiynau pwrpasol sy'n diwallu anghenion disgyblion. Yn ogystal, mae ymyraethau priodol yn cefnogi disgyblion ag anghenion i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyraethau hyn yn gyfyngedig. Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau datblygu unigol pwrpasol i ddisgyblion, sy'n cynnwys cyfleoedd i'w hadolygu yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol er mwyn monitro presenoldeb disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau lles er mwyn hyrwyddo presenoldeb da. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i gysylltu â'r cartref pan mae disgybl yn absennol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu plant. Mae yna ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer parcio ceir staff ar y safle, ac ar gyfer y llwybr i ddisgyblion a rhieni gael mynediad at fuarth yr ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd, yn briodol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu ffederasiwn ysgolion cynradd Cross Hands a Drefach. Mae'r weledigaeth honno wedi ei seilio ar gydweithio agos er mwyn hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn hybu cyfleoedd i rannu arferion ac arbenigeddau er mwyn datblygu hyder a chwilfrydedd y disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae rôl y corff llywodraethol yn allweddol wrth gynnal momentwm cydweithio ar draws y ffederasiwn. Mae aelodau'r corff yn adnabod yr ysgolion yn dda iawn. Maent yn cefnogi'r pennaeth a'r arweinwyr yn effeithiol er mwyn datblygu elfennau o'r ddarpariaeth yn barhaus. Mae gwaith yr ysgolion yn cael ei hyrwyddo'n sylweddol gan fod y staff yn cael eu cyflogi gan y ffederasiwn yn hytrach na'r ysgolion unigol. O ganlyniad, mae hyblygrwydd defnyddiol gan arweinwyr i ymateb yn unol ag anghenion y ddwy ysgol. Golyga hyn y gall y corff ddyrannu adnoddau dynol at wahanol ddosbarthiadau yn unol â'r anghenion ar y pryd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau trylwyr ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu o fewn ysgolion y ffederasiwn. Mae gan arweinwyr a'r staff wybodaeth fanwl am gryfderau'r ysgolion unigol, a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Maent yn cynnal ystod eang o weithgareddau craffu, sy'n cynnwys mewnbwn rheolaidd gan aelodau'r corff llywodraethol. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar wahanol agweddau o'r ddarpariaeth ac yn caniatáu iddynt fod â throsolwg strategol defnyddiol o waith y ddwy ysgol, ac ymateb i'w hanghenion gwella. Er enghraifft, maent wedi blaenoriaethu'r angen i hyrwyddo'r ddarpariaeth i

hybu llafaredd Cymraeg disgyblion.  Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus, gan ddyrannu arian ac adnoddau er mwyn diwallu anghenion cyfredol y ffederasiwn.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol sy'n hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff yn llwyddiannus. Noda'r athrawon a'r cynorthwywyr eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i rannu arferion ac arbenigeddau ar draws y ffederasiwn a'u bod yn elwa o'r gwaith hwn yn fawr. Bu cyfleoedd i ganolbwyntio ar addysgu er mwyn datblygu dealltwriaeth staff o bwysigrwydd addysgeg wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bu staff hefyd yn canolbwyntio ar fagu cysondeb yn lefel yr her sy'n cael ei darparu ar gyfer disgyblion, er bod lle i wella hyn ymhellach.

Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, gan gynnwys amrediad o hyfforddiant gwerthfawr. Er enghraifft, ymatebodd arweinwyr i ddyheadau aelodau o staff cymorth yr ysgolion drwy hwyluso'r cyfle iddynt fynychu hyfforddiant ar gyfer cymhwyso fel uwch gynorthwywyr ac ysgwyddo cyfrifoldebau ehangach. Bellach, maent yn cydweithio'n agos ac fe gafodd hyn effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ieuengaf y ffederasiwn. Mae trefniadau ar gyfer hyrwyddo datblygiad proffesiynol yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r ysgol, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer elfennau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau ar y cyd i athrawon a staff cymorth ar draws y ffederasiwn. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu medrau arwain, ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad ar draws y gwahanol ddosbarthiadau.

Mae arweinwyr yn cysylltu dysgu proffesiynol yn glir â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn cydnabod nodweddion effeithiol ar draws y ddwy ysgol o fewn y ffederasiwn. Mae gweithdrefnau arwain meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru yn dechrau gwreiddio ac yn darparu sylfaen gadarn i'r ffederasiwn adeiladu arnynt. Mae arweinwyr a staff ar draws y ffederasiwn yn rhannu arfer dda, a hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill er mwyn trafod ac arsylwi arfer yno. Er enghraifft, mae athrawon sy'n gweithio gyda disgyblion o'r un oedran yn cydweithio wrth gyflwyno gwersi, gydag un ohonynt yn bresennol yn y dosbarth a'r llall yn bresennol ar sgrin. Mae'r math hwn o weithgaredd yn hyrwyddo cydweithio agos a buddiol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol gydag amrediad o asiantaethau. Er enghraifft, mae'r berthynas gyda'r clwb henoed lleol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes eu cynefin lleol. Mae perthynas glòs a chefnogol rhwng yr ysgol â rhieni. Maent yn cydweithio'n agos er mwyn rhannu gwybodaeth am gynnydd y disgyblion, ac wrth drafod eu lles.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2022